Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Rethink the Ink, Porthcawl

Dyddiad arolygu: 26 Mehefin 2025

Dyddiad cyhoeddi: 26 Medi 2025



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN Digidol 978-1-80633-446-9

© Hawlfraint y Goron 2025

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........ 5
2. Crynodeb o'r arolygiad ........ 6
3. Yr hyn a nodwyd gennym ........ 8
   - Ansawdd Profiad y Claf ........ 8
   - Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol ........ 11
   - Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth ........ 15
4. Y camau nesaf ........ 16

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ........ 17

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith ........ 18

Atodiad C - Cynllun gwella ........ 19

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Rethink the Ink, 9-15 New Road, Porthcawl, CF36 5DL ar 26 Mehefin 2025.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan ddau arolygydd gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o bum holiadur. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod Rethink the Ink yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i'w gleifion mewn amgylchedd glân a chyfforddus.

Roedd mesurau priodol ar waith i sicrhau bod cleifion yn cael eu trin â phroffesiynoldeb a pharch. Gellid trefnu apwyntiadau drwy amrywiaeth o ddulliau a oedd yn galluogi'r rhai heb fynediad at ddyfeisiau digidol i drefnu apwyntiad.

Roedd cofrestr triniaethau yn cael ei chynnal yn unol â'r rheoliadau. Roedd cofnodion y cleifion yn fanwl ac yn dangos bod pob claf yn cael ymgynghoriad llawn a phrawf croen cyn dechrau'r driniaeth.

Gwelsom fod y lleoliad yn gofyn am adborth gan gleifion ac yn ymateb iddo pan fyddai'n dod i law. Dywedodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir yn dda iawn.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd copi o gyfarwyddiadau cyn triniaeth a chanllawiau ôl-ofal yn cael eu rhoi i bob claf
- Roedd y cleifion yn cael digon o wybodaeth gan gynnwys gwybodaeth am risgiau, manteision a chostau er mwyn gwneud dewis gwybodus am eu triniaeth.
- Gofynnwyd am gydsyniad ysgrifenedig cyn pob triniaeth.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom fod y clinig yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac roedd yn cynnwys cyfarpar addas i ddarparu'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w darparu. Roedd prosesau atal a rheoli heintiau da ar waith ond nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant cyfredol yn hyn o beth.

Er bod y trefniadau diogelwch tân yn foddhaol ar y cyfan, nid oedd rhai argymhellion yn yr asesiad risg tân wedi'u cwblhau. Roedd angen cymryd rhai camau hefyd i sicrhau bod trefniadau cymorth cyntaf boddhaol ar waith.

Roedd y rheolwr cofrestredig yn cymryd camau priodol i sicrhau bod y peiriant laser mewn cyflwr da ac yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio. Fodd

bynnag, nid oedd gwiriadau dyddiol o'r cyfarpar yn cael eu cofnodi, ac roedd yr hyfforddiant craidd gwybodaeth wedi darfod. Gwnaeth hepgoriad yn y rheolau lleol achosi rhywfaint o bryder o ran y cyfarpar amddiffyn llygaid, a gafodd ei ddatrys ar y diwrnod.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Cynnal asesiad risg Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr
- Adolygu'r polisi diogelu
- Llunio polisi ysgrifenedig yn nodi sut mae'r gwasanaeth yn asesu'r gallu i gydsynio i driniaeth.
- Rhoi proses wedi'i dogfennu ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y safle yn lân, roedd mewn cyflwr da, ac roedd y cyfarpar yn cael ei wasanaethu fel sy'n ofynnol
- Roedd contract ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau, ynghyd â rheolau lleol ac asesiad risg laser wedi'u diweddaru.
- Roedd cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Mae Rethink the Ink yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig, sef unig weithredwr y peiriant laser.

Roedd ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar gael, ond roedd rhai yn anodd dod o hyd iddynt. Roedd gweithdrefn gwyno addas ar waith, gydag amserlenni priodol a'r manylion cyswllt ar gyfer AGIC pe bai angen uwchgyfeirio'r mater. Cawsom wybod nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law hyd yma.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Sicrhau bod gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd wedi'i gynnal ar gyfer y rheolwr cofrestredig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Adolygu a diweddaru'r holl bolisïau yn rheolaidd.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan Gleifion

Rhoddodd y cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC adborth cadarnhaol am eu profiadau yn y clinig. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr fod y gwasanaeth yn 'dda iawn.'

Dywedodd un person:

> *"Proffesiynol iawn ac yn dangos parch mawr."*

**Urddas a pharch**

Gwelsom fod gan Rethink the Ink un ystafell drin ar gyfer triniaethau laser ar y llawr gwaelod a bod y drysau a'r ardaloedd i gleifion yn ddigon llydan i gadair olwyn. Roedd yr ystafell drin yn lân yr olwg, yn daclus ac yn drefnus ac roedd ganddi ddrws y gellir ei gloi a llenni i orchuddio ffenestr fewnol er mwyn rhoi preifatrwydd i'r cleifion newid.

Dywedwyd wrthym fod pob ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn yr ystafell drin er mwyn sicrhau preifatrwydd a bod y cleifion yn cael cais i ddod â'u tywelion eu hunain gyda nhw os oedd angen i ddiogelu eu hurddas. Nid oedd y gwasanaeth yn cynnig hebryngwyr, ond gallai'r cleifion ddod â rhywun gyda nhw.

Dywedodd pob un o'r pump unigolyn a atebodd holiadur AGIC eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch a bod mesurau wedi'u cymryd i ddiogelu eu preifatrwydd.

**Cyfathrebu'n effeithiol**

Gwnaethom edrych ar y canllaw i gleifion a'r datganiad o ddiben a ddarparwyd gan y rheolwr cofrestredig. Roedd y ddau yn cydymffurfio â'r rheoliadau i raddau helaeth, ond nid oedd manylion cyswllt ar gyfer AGIC wedi'u nodi yn y datganiad o ddiben fel ffordd o fynegi pryderon ac nid oedd manylion am gost y triniaethau yn y canllaw i gleifion. Diwygiwyd y ddau fater yn ystod yr arolygiad.

Gwelsom mai dim ond yn Saesneg yr oedd y wybodaeth am y clinig ar gael, er y gellid trefnu fersiwn Gymraeg drwy drefniant ymlaen llaw. Dywedwyd wrthym y byddai dogfennau'n cael eu darllen i gleifion oedd yn cael trafferth darllen a bod y gwasanaeth yn defnyddio negeseuon ysgrifenedig i gleifion ag amhariad ar y clyw.

Dywedwyd wrthym mai drwy wefan y clinig, drwy'r cyfryngau cymdeithasol a thros y ffôn y byddai apwyntiadau yn cael eu trefnu gan fwyaf. Roedd apwyntiadau galw heibio ar gael hefyd.

**Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion**
Gwelsom y gofrestr o driniaethau laser fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau a gwelsom ei bod yn glir ac yn drefnus. Roedd modd adnabod cleifion yn hawdd ac roedd y paramedrau trin wedi'u cofnodi'n llawn.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion pum claf. Roedd nodiadau cleifion unigol manwl ar gael, gyda phob un yn dangos bod y lleoliad wedi cael cydsyniad yn dilyn ymgynghoriad ac unwaith eto cyn pob triniaeth ddilynol.

Roedd pob cofnod a welsom yn dangos bod y cleifion wedi cael asesiad i nodi pa fath o groen oedd ganddynt a'u bod wedi cael prawf croen cyn dechrau cwrs o driniaeth er mwyn pennu tebygolrwydd unrhyw adweithiau niweidiol.

Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod wedi cael prawf croen ac wedi llofnodi cydsyniad cyn cael triniaeth newydd.

**Cynllunio a darparu gofal**
Dywedwyd wrthym fod y staff yn gofyn i'r cleifion ddarparu hanes meddygol llawn yn ystod yr ymgynghoriad cychwynnol. Cawsom sicrwydd bod y cleifion wedi cael digon o wybodaeth, gan gynnwys y risgiau a'r manteision, i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am eu triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod copi o gyfarwyddiadau cyn triniaeth a chanllawiau ôl-ofal yn cael eu rhoi i bob claf. Roedd unrhyw newid i hanes meddygol y claf yn cael ei gadarnhau cyn unrhyw driniaethau dilynol ac yn cael ei ddogfennu yn ei gofnodion.

Roedd pob un o'r unigolion a atebodd holiadur AGIC yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth i ddeall eu hopsiynau o ran triniaeth, gan ddweud bod y costau wedi cael eu nodi'n glir iddynt cyn dechrau'r driniaeth. Cadarnhaodd pob ymatebydd fod y gweithredwr laser wedi esbonio'r hyn roedd yn ei wneud drwy gydol y driniaeth.

**Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol**
Dywedwyd wrthym fod y clinig yn trin pawb yn deg a'i fod yn amgylchedd cynhwysol a chawsom sicrwydd y byddai hawliau dynol cleifion trawsryweddol yn cael eu parchu, gyda'r staff yn ymwybodol o bwysigrwydd defnyddio enwau a rhagenwau a ffefrir fel y bo'n ofynnol.

Cadarnhaodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC nad oeddent wedi profi unrhyw achosion o wahaniaethu wrth ddefnyddio'r gwasanaeth.

**Ymgysylltu â dinasyddion a cheisio adborth**
Dywedwyd wrthym fod y gwasanaeth yn gofyn am adborth gan gleifion ar ôl eu triniaeth drwy ddefnyddio cod QR a oedd i'w weld yn ardal y dderbynfa. Roedd adborth yn cael ei gasglu drwy adolygiadau ar-lein neu wyneb yn wyneb yn y clinig hefyd. Roedd hyn yn cael ei fonitro a, lle y bo'n briodol, roedd yr ymatebion yn cael eu darparu i'r achwynydd ac roedd cynlluniau trin yn cael eu diwygio.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig fod adborth yn cael ei asesu a'i ddadansoddi'n barhaus.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

**Rheoli risg ac iechyd a diogelwch**
Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda yn ôl yr olwg, y tu mewn a'r tu allan. Roedd y clinig yn cynnwys derbynfa ac ardal aros ynghyd ag ystafell drin ar wahân ar gyfer gwaredu tatŵs â laser. Roedd yr ardal aros a'r ystafell drin yn ymddangos yn gyfforddus ac yn cynnwys cyfarpar priodol.

Gwelsom dystiolaeth o Brofion Offer Cludadwy (PAT) cyfredol, er mwyn helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol yn ddiogel i'w defnyddio. Fodd bynnag, nid oedd Adroddiad ar Gyflwr Gosodiadau Trydanol (EICR) bob pum mlynedd ar gael; dywedwyd wrthym fod y landlord wrthi'n ymgymryd â'r broses. Cyflwynwyd copi o'r adroddiad hwn yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Gwnaethom edrych ar drefniadau diogelwch tân y clinig a gwelsom fod y diffoddwyr tân wedi cael eu gwasanaethu'n ddiweddar a bod hyfforddiant diogelwch tân wedi'i gwblhau. Gwelsom asesiad risg tân cyfredol ond nid oedd sawl argymhelliad wedi cael ei roi ar waith. Gwnaethom godi hyn gyda'r rheolwr cofrestredig, a unionodd y materion a oedd heb eu datrys yn ystod yr arolygiad. Gwelsom hefyd fod larymau yn cael eu harchwilio a bod yr archwiliadau yn cael eu cofnodi bob mis, a thrafodwyd y posibilrwydd o sicrhau bod y broses hon yn cael ei chwblhau bob wythnos yn lle hynny.

Gwelsom fod asesiad risg cynhwysfawr o beiriannau laser wedi cael ei gynnal yn ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau penodedig. Er bod asesiad risg Iechyd a Diogelwch ar waith, roedd ei gwmpas a'i fanylder yn gyfyngedig iawn.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i asesiad risg Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr gael ei gynnal a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.**

Gwnaethom edrych ar y pecyn cymorth cyntaf a gwelsom fod y dyddiad dirwyn i ben wedi mynd heibio ar nifer o eitemau. Gwelsom hefyd nad oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf. Gwnaethom godi'r ddau fater gyda'r rheolwr cofrestredig a aeth ati i archebu pecyn cymorth cyntaf newydd a threfnu cwrs hyfforddiant cymorth cyntaf ar unwaith. Anfonwyd tystiolaeth i ddangos ei fod wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Ymdriniwyd â'n pryder mewn perthynas â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad A.

**Atal a rheoli heintiau a dihalogi**

Roedd y clinig yn lân yr olwg ac roedd y dodrefn, y cyfarpar a'r ffitiadau wedi'u gwneud o ddeunyddiau y gellir eu glanhau'n hawdd. Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig y trefniadau rheoli heintiau, ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol i ddiogelu'r cleifion rhag y risg o haint.

Gwelsom fod polisi atal a rheoli heintiau ar waith a bod amserlenni glanhau yn cael eu defnyddio. Gwelsom fod gwastraff yn y clinig yn cael ei storio'n ddiogel a bod contract addas ar waith ar gyfer casglu a gwaredu'r gwastraff hwn.

Gwnaethom ofyn am dystiolaeth o hyfforddiant atal a rheoli heintiau cyfredol ar gyfer y rheolwr cofrestredig ond dywedwyd wrthym nad oedd yr hyfforddiant hwn wedi'i gwblhau. Trefnwyd cwrs hyfforddiant atal a rheoli heintiau yn ystod yr arolygiad ac anfonwyd tystysgrif cwblhau at AGIC y diwrnod canlynol.

Dywedodd pob unigolyn a ymatebodd i holiadur AGIC fod y mesurau atal a rheoli heintiau yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn lân iawn yn eu barn nhw.

**Diogelu plant a diogelu oedolion sy'n agored i niwed**

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion 13 oed a throsodd. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn ac esboniodd fod angen i riant neu warcheidwad cyfreithlon fod yn bresennol wrth drin cleifion o dan 18 oed. Fodd bynnag, ni allem weld unrhyw gyfeiriad at hyn ym mholisïau na deunydd darllen y clinig.

Gwnaethom edrych ar bolisi diogelu'r clinig a gwelsom ei fod yn cynnwys manylion cyswllt perthnasol y timau diogelu lleol. Fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys gweithdrefnau clir o ran sut y byddai'r clinig yn ymateb i bryderon. Er bod cyfeiriad at god ymddygiad wrth drin plant ac oedolion agored i niwed, unwaith eto nid oedd manylion o ran beth roedd hyn yn ei olygu. Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod galluedd cleifion i roi cydsyniad yn cael ei asesu fel rhan o'r broses ymgynghori. Fodd bynnag, prin oedd y manylion am alluedd i gydsynio i driniaethau a welsom yn y polisïau.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:**

- **edrych ar y polisi diogelu i sicrhau ei fod yn ymdrin â threfniadau'r clinig i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed mewn ffordd gynhwysfawr**
- **llunio polisi ysgrifenedig yn nodi sut mae'r gwasanaeth yn asesu galluedd cleifion i gydsynio i driniaeth.**

Gwelsom mai dim ond ar gyfer plant roedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant diweddaraf ar ddiogelu. Gwnaethom drafod yr angen i gwblhau hyfforddiant mewn perthynas â diogelu oedolion agored i niwed hefyd. Cafodd tystiolaeth i ddangos bod hyfforddiant ar ddiogelu oedolion agored i niwed wedi cael ei gwblhau ei hanfon i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

**Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol**

Gwelsom fod y ddyfais laser yr un fath â'r un a gofrestrwyd ag AGIC a bod y cofnodion gwasanaethu a chynnal a chadw yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Disgrifiwyd y gwiriadau dyddiol ar gyfer cynnal a chadw'r systemau laser, ond nid oedd cofnod ohonynt, er gwaetha'r ffaith bod templed ar gyfer cofnod gwiriadau ar gael.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol eu cynnal o'r cyfarpar ac y cânt eu cofnodi.**

Gwelsom fod protocolau trin ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriant laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu cymeradwyo gan ymarferydd meddygol arbenigol. Roedd y rhain yn gyfredol ac yn berthnasol i'r gwasanaethau a ddarperir.

Roedd contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau (LPA) ac roedd rheolau lleol yn nodi sut i ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, nid oedd manylebau ar gyfer y cyfarpar amddiffyn llygaid ar gael. Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a gysylltodd â'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar unwaith, a wnaeth gadarnhau bod y cyfarpar amddiffyn llygaid a oedd ar gael yn briodol. Derbyniodd AGIC gopi diwygiedig o'r rheolau lleol a oedd yn cynnwys y fanyleb ar gyfer y cyfarpar llygaid yn fuan ar ôl yr arolygiad.

Ymdriniwyd â'n pryder mewn perthynas â hyn yn ystod yr arolygiad. Ceir rhagor o wybodaeth am y materion a nodwyd gennym, a'r camau a gymerwyd gan y gwasanaeth, yn Atodiad A.

**Gofal diogel a chlinigol effeithiol**

Roedd cyfarpar amddiffyn y llygaid ar gael i'r cleifion a'r gweithredwr laser. Roeddent yn lân ac mewn cyflwr da.

Roedd arwyddion y tu allan i'r ystafell drin i ddangos bod peiriant laser yn yr ystafell ac roedd clo ar y drws i atal pobl heb awdurdod rhag mynd i mewn pan oedd y peiriant yn cael ei ddefnyddio. Roedd trefniadau priodol ar waith i sicrhau bod y peiriant laser yn ddiogel pan nad oedd yn cael ei ddefnyddio.

Gwelsom dystiolaeth bod hyfforddiant penodol ar gyfer y peiriant laser wedi cael ei gwblhau. Fodd bynnag, nid oedd hyfforddiant craidd gwybodaeth cyfredol ar waith. Gwnaethom godi hyn â'r rheolwr cofrestredig a drefnodd gwrs hyfforddiant ac a anfonodd dystysgrif hyfforddiant i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad.

**Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd**

Nid oedd unrhyw systemau wedi'u dogfennu ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Yn unol â'r rheoliadau, rhaid i'r rheolwr cofrestredig ystyried gwybodaeth sy'n berthnasol i'r diwydiant, archwiliadau clinigol, cyngor arbenigol ac adolygiadau cenedlaethol fel rhan o weithgareddau gwella ansawdd y clinig.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.**

**Rheoli cofnodion**

Gwelsom fod cofnodion cleifion yn cael eu cadw'n ddiogel yn y gwasanaeth, a bod trefniadau addas ar waith i leihau risgiau colli gwybodaeth bersonol sensitif.

Disgrifiodd y rheolwr cofrestredig brosesau priodol ar gyfer gwaredu cofnodion, gan gynnwys cyfnodau cadw data.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

**Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd**

Y rheolwr cofrestredig sy'n berchen ar Rethink the Ink ac yn ei redeg, ac ef yw unig weithredwr y peiriant laser. Gwelsom fod yswiriant atebolrwydd cyhoeddus cyfredol ar waith a bod tystysgrif cofrestru AGIC yn cael ei harddangos yn unol â'r rheoliadau.

Roedd amrywiaeth o bolisïau ar gael a oedd wedi cael eu hadolygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, gwelsom ei bod hi'n anodd dod o hyd i rai polisïau gan eu bod yn rhan o bolisïau eraill. Mae'n bosibl yr hoffai'r rheolwr cofrestredig ystyried gwahanu'r polisïau hyn i'w gwneud hi'n haws cael gafael arnynt.

**Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau**

Roedd polisi cwynion addas ar waith a oedd yn cynnwys amserlenni priodol ar gyfer cydnabod a datrys cwynion ac a oedd yn enwi'r rheolwr cwynion. Roedd manylion cyswllt AGIC wedi'u cynnwys pe bai'r claf yn dymuno uwchgyfeirio unrhyw faterion. Gwelsom fod crynodeb o'r weithdrefn gwyno hefyd wedi'i gynnwys yn y datganiad o ddiben a'r canllaw i gleifion.

Gwelsom fod cofnod cwynion ar gael i gofnodi cwynion a manylion yr ymchwiliadau a'r datrysiadau. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym nad oedd unrhyw gwynion wedi dod i law hyd yma.

**Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu**

Gwnaethom ofyn am dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y rheolwr cofrestredig. Fodd bynnag, roedd y dystysgrif dros dair blwydd oed ac roedd angen ei diweddaru.

**Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i gael tystysgrif fanylach newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chadw cofnod ohoni i ddangos ei fod yn addas o hyd i barhau i reoli'r clinig.**

Gan mai'r rheolwr cofrestredig yw unig gyflogai'r clinig, nid oedd unrhyw arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu mewn perthynas â chyflogeion.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| **Roedd dyddiad dirwyn i ben sawl eitem yn y pecyn cymorth cyntaf wedi mynd heibio.** | Gallai fod risg i ymwelwyr â'r safle pe byddai damwain yn digwydd. | Codwyd y mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig. | Archebwyd pecyn cymorth cyntaf newydd yn ystod yr arolygiad. |
| **Nid oedd y rheolwr cofrestredig wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf diweddaraf** | Gallai fod risg i ymwelwyr â'r safle pe byddai damwain yn digwydd. | Codwyd y mater hwn ar unwaith â'r rheolwr cofrestredig. | Trefnwyd cwrs cymorth cyntaf yn ystod yr arolygiad. Cafodd tystiolaeth i ddangos fod y cwrs wedi cael ei gwblhau ei rhoi i AGIC yn fuan ar ôl yr arolygiad. |
| **Nid oedd y rheolau lleol a oedd yn nodi manylion sut i weithredu'r peiriant laser yn ddiogel yn cynnwys manylebau ar gyfer y cyfarpar amddiffyn llygaid.** | Gallai fod risg o niwed i'r gweithredwr a'r cleifion pe na fyddai'r cyfarpar llygaid cywir yn cael ei ddefnyddio, neu os nad oedd ar gael. | Codwyd hyn gyda'r rheolwr cofrestredig a gysylltodd â'r Cynghorydd Diogelu rhag Laserau ar unwaith. | Nodwyd y cyfarpar llygaid cywir.<br><br>Diwygiwyd y rheolau lleol i gynnwys y manylebau ar gyfer y cyfarpar diogelu llygaid. |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Rethink the Ink

## Dyddiad yr arolygiad: 26 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch y cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.** | | | | |

# Atodiad C - Cynllun gwella

## Gwasanaeth: Rethink the Ink

## Dyddiad yr arolygiad: 26 Mehefin 2025

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn sydd angen ei wella | Safon/ Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i asesiad risg Iechyd a Diogelwch cynhwysfawr gael ei gynnal a rhoi copi i AGIC pan fydd wedi'i gwblhau.** | Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 19(1)(b) | Cynhaliwyd a chwblhawyd asesiad risg ar 4/7/2025. | Jon Richardson | Wedi'i gwblhau<br><br>Anfonwyd ymlaen ar |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig wneud y canlynol:**<br><br>• **edrych ar y polisi diogelu i sicrhau ei fod yn ymdrin â threfniadau'r clinig i ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed mewn ffordd gynhwysfawr** | Rheoliad 16 | Diweddarwyd y polisi gan nodi'r wybodaeth ychwanegol a oedd yn ofynnol. | Jon Richardson | Wedi'i gwblhau<br><br>Anfonwyd y polisi diogelu ar |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| • **llunio polisi ysgrifenedig yn nodi sut mae'r gwasanaeth yn asesu galluedd cleifion i gydsynio i driniaeth.** | Rheoliad (9)(4)(a) | | | |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau y caiff gwiriadau dyddiol eu cynnal o'r cyfarpar ac y cânt eu cofnodi.** | Rheoliad 15(2) | Cafodd ffolder ei greu a chaiff gwybodaeth ei nodi yn y ffolder bob dydd. | Jon Richardson | Wedi'i gwblhau |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig roi system ar waith i asesu a monitro ansawdd y gwasanaethau a ddarperir yn rheolaidd yn unol â'r rheoliadau.** | Rheoliad 19 | Mae gennym system ar waith ar gyfer datblygu a gwella.<br><br>Er mwyn cydymffurfio â'r rheoliadau | Jon Richardson | Wedi'i gwblhau |
| **Rhaid i'r rheolwr cofrestredig drefnu i gael tystysgrif fanylach newydd gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chadw cofnod ohoni i ddangos ei fod yn addas o hyd i barhau i reoli'r clinig.** | Rheoliad 10(3) | Mae'r holl waith papur wedi'i gwblhau a'i anfon ymlaen at AGIC i'w gwblhau | Jon Richardson | Yn mynd rhagddo - gydag AGIC |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

## Enw (priflythrennau): Jon Richardson

**Teitl swydd: Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 04/09/2025**